**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 8 Tachwedd 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| N J Davies | P Downing | S J Gallagher |
| P Lloyd | H M Morris | C L Philpott |
| B J Rowlands | L G Thomas | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Craig Davies | Lawyer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson a/ac J P Curtice

---

## 1 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 13 Medi 2019 yn gofnod cywir.

## 3 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**4 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - IMA.**

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas ag IMA.

Esboniodd IMA yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais IMA am Dystysgrif Eithrio **yn ddiderfyn**.

**5 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Yrru Gyfyngedig ar gyfer Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - SS.**

Dywedodd y cyfreithiwr sy'n cynghori'r pwyllgor fod tudalennau'r adroddiad a'r atodiad sy'n ymwneud ag SS yn anghyflawn ym mhapurau agenda'r aelodau o ganlyniad i broblemau gweinyddol. Er mwyn i SS gael gwrandawiad teg, roedd swyddogion wedi siarad ag SS a oedd wedi gofyn a allai aelodau ystyried gohirio'r mater i dyddiad hwyrach.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan gyfarfod yn y dyfodol.

**6 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Preifat - MSB.**

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas ag MSB.

Esboniodd MSB yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r euogfarnau ac atebodd gwestiynau aelodau.

Ceisiodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch eglurhad ar ddau fater yn yr adroddiad.

Darparodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor gyngor iddynt yn dilyn eglurhad gan y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch.

**Penderfynwyd gwrthod** cais MSB am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Teimlwyd nad oed MSB wedi cynnig lliniariad cymhellol i wyro o baragraff 4.42 ar yr Arweiniad ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Dalwyr trwydded yn y Busnes

Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, sy'n nodi 'lle bo gan ymgeisydd 7 neu fwy o bwyntiau ar eu trwydded DVLA ar gyfer mân droseddau traffig neu droseddau tebyg, ni roddir trwydded nes bod o leiaf 5 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd'.

Teimlai aelodau nad oedd MSB wedi darparu tystiolaeth o amgylchiadau eithriadol. na rhesymau cyfiawnadwy i wyro oddi wrth y polisi; yn ôl 3.29 yr arweiniad.

Nid oedd aelodau'n ystyried bod MSB yn berson diogel ac addas
ac nid oedd wedi pasio'r prawf addas a phriodol.

**7 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Rhif Cofrestru - DRF.**

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas â DRF.

Esboniodd DRF amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd gwrthod** cais DRF am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Roedd aelodau o'r farn bod DRF wedi methu darparu lliniarad cymhellol ynghylch y collfarnau.

Cyfeiriodd yr aelodau at adran 4.31 yr Arweiniad ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Dalwyr trwydded yn y Busnes Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, sy'n nodi 'lle bo gan ymgeisydd gollfarn o drais, neu gysylltiad ag unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thrais, ni roddir trwydded ni roddir trwydded nes bod o leiaf 10 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd'.

Nid oedd aelodau o'r farn bod DRF yn berson diogel ac addas, a hefyd teimlwyd nad oedd yn berson addas a phriodol.

Rhoddwyd ystyriaeth i 3.29 yr arweiniad a theimlai aelodau na ddangosodd DRF dystiolaeth o unrhyw amgylchiadau eithriadol, na rhesymau cyfiawnadwy i wyro oddi wrth y canllawiau mabwysiedig.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.40 am

**Cadeirydd**